POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR PRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2015/16

### Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel Heddlu a Throsedd (PHT) a gynhwysir ym Mharagraff 3(2) Adran 5 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

### Adolygiad o’r Praesept Arfaethedig

Bu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHT) hysbysu’r Panel ar 12 Ionawr 2015 o’i Lefel Braesept Plismona arfaethedig ar gyfer 2015/16.

Bu’r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ystyried adroddiad y CHT yn amlinellu’r praesept arfaethedig a’r gyllideb ar gyfer 2015/16 yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy, ddydd Llun 19 Ionawr 2015.

Bu aelodau’r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn adolygu’r cynnydd arfaethedig i’r praesept o £66,673,611 a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor gan 3.44% (cynnydd o £7.83 y flwyddyn ar gyfer eiddo Band D) ac yn eu trafodaethau, ystyriodd y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y canlynol:

- Yr effaith roedd chwyddiant yn ei gael ar lefel arfaethedig y praesept.
- Sut roedd y gostyngiad mewn prisiau tanwydd ac ynni yn effeithio ar y gyllideb a'r praesept arfaethedig.
- Yr effaith y byddai gostyngiad yn y grant o £3.940m yn ei gael ar gyllidebau staffio ac, yn arbennig, gwasanaethau rheng flaen

Cydnabu'r Panel y byddai angen i'r Heddlu dorri £15.5m pellach dros y pedair blynedd nesaf, byddai angen i £4.448m ohono ddod allan o gyllideb 2015/16. Roedd gwasanaethau rheng flaen wedi cael eu diogelu cyn belled â phosibl, fodd bynnag, po fwyaf toriadau a wnaethpwyd y mwyaf tebygol y byddent yn cael eu heffeithio. Gofynnodd y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, pe canfuwyd arbedion ychwanegol eu bod yn cael eu buddsoddi mewn i wasanaethau rheng flaen i gychwyn.

Cytunodd y Panel i gefnogi'r CHT a'i gynigion mewn perthynas â'r praesept plismona, a fyddai'n galluogi'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth plismona dichonadwy ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**Argymhellion:**

**(a) Bod y praesept ar gyfer 2015/16 o £66,673,611 yn cael ei gymeradwyo.**

- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor gan 3.44% - mae hyn yn gyfwerth â £235.44 y flwyddyn, cynnydd o £7.83 y flwyddyn, neu 15c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.**
- **Mae hyn yn gynnydd o 4.01% o 2014/15.**

**(b) Bod y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi bod y £4.448m o doriadau sy'n ofynnol ar gyfer 2015/16 wedi cael eu nodi.**

**(c) Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol yn cael eu nodi:**

- **Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 3.5% yn 2016/17 a 2.5% yn 2017/18 a 2018/19.**
- **Bydd y grantiau plismona yn lleihau o 4% ym mhob blwyddyn.**
- **Bod newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr, a fydd yn dod i rym yn 2016/17, yn cael effaith gyfatebol â gostyngiad grant o 3.7% pellach.**

Ionawr 2015